## Atodlen 2

Rheoliad 18

## DIWYGIADAU I REOLIADAU MYNEDIAD I GEFN GWLAD (GWEITHDREFNAU APELAU) (CYMRU) 2002

**1.** Yn rheoliad 2(1), ychwanegwch at y diffiniad o "apêl", ar ôl y gair "Ddeddf":
"neu gyfeiriad o dan adran 29(2) o'r Ddeddf."

**2.** Dilëwch Rheoliad 4, a rhowch yn ei le:

"**4.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i'r atebydd, o fewn 14 diwrnod gwaith ar ôl iddo gael ffurflen apêl oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol, anfon at y Cynulliad Cenedlaethol ac at yr apelydd:

(a) datganiad a fydd yn gwrthwynebu'r apêl ac, os felly, ei seiliau dros wneud hynny;

(b) datganiad a ydyw'n dymuno cael gwrandawiad gan berson a benodir gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn cysylltiad â'r apêl (yn hytrach na bod yr apêl yn cael ei phenderfynu ar sail sylwadau ysgrifenedig) ac, os felly, a yw'n dymuno cael gwrandawiad mewn ymchwiliad lleol neu, fel arall, mewn gwrandawiad;

(c) copïau o unrhyw ohebiaeth berthnasol rhwng yr apelydd a'r atebydd;

(ch) copïau o unrhyw sylwadau a wnaed i'r atebydd gan unrhyw berson heblaw'r apelydd mewn perthynas â'r penderfyniad ar ran yr atebydd y mae'r apêl yn perthyn iddo; a

(d) unrhyw wybodeth bellach y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gofyn am ei darparu.

(2) Yn achos apêl o dan adran 6 o'r Ddeddf:

(a) rhaid i'r atebydd, yn ychwanegol, anfon at y Cynulliad Cenedlaethol, cyn i'r cyfnod a bennir ym mharagraff (1) ddirwyn i ben, gopi o ddarn o fap sy'n dangos y rhan honno o'r map dros dro y mae'r apêl yn perthyn iddi;

(b) ni fydd rhaid i'r atebydd anfon y datganiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)(a) ac (1)(b) o fewn y cyfnod a bennir ym mharagraff (1) ond rhaid iddo wneud hynny cyn i'r cyfnod a bennir yn rheoliad 5(2)(a) neu 5(2)(b) (pa un bynnag sydd hwyraf) ddirwyn i ben ac mae'n rhaid iddo, yr un pryd, anfon at y Cynulliad Cenedlaethol unrhyw wybodaeth pellach y mae'r Cynulliad Cenedlaethol, erbyn hynny, wedi gofyn i'r atebydd ddarparu; ac

(c) os na fydd, o fewn y cyfnod a bennir ym mharagraff (1), yn anfon at y Cynulliad Cenedlaethol y datganiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)(a) ac (1)(b), rhaid i'r atebydd, yn lle hynny, anfon at y Cynulliad Cenedlaethol, o fewn y cyfnod hwnnw, datganiad sy'n cynnwys rhywbeth i ddangos a fydd yn gwrthwynebu'r apêl ac, os felly, y seiliau tebygol dros wneud hynny."

**3.** Dilëwch reoliad 5(2)(a) a rhowch yn ei le:

"(a) cyn bod 35 diwrnod yn dirwyn i ben o'r dyddiad yr anfonodd y Cynulliad Cenedlaethol gopi o'r ffurflen apêl wedi'i chwblhau at yr atebydd yn unol â rheoliad 3; neu".

**4.** Yn rheoliad 6(1)—

(a) ychwangewch, ar ddechrau is-baragraff(a):

"ac eithrio yn achos apêl o dan adran 30(3) o'r Ddeddf neu gyfeiriad o dan adran 29(2) o'r Ddeddf,"

(b) ychwanegwch, ar ôl is-baragraff (c):

"(ch) yn achos apêl o dan adran 30(3) o'r Ddeddf neu gyfeiriad o dan adran 29(2) o'r Ddeddf, rhoi hysbysiad i:

(i) yr awdurdod mynediad;

(ii) y fforwm mynediad lleol perthnasol;

(iii) unrhyw berson sydd wedi cyflwyno sylwadau i'r awdurdod perthnasol mewn perthynas â'r cyfarwyddyd y mae'r apêl yn ymwneud ag ef yn unol â darpariaethau Rheoliadau mynediad i Gefn Gwlad (Gwahardd neu Gyfyngu Mynediad) (Cymru) 2003; a

(iv) unrhyw berson arall y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn barnu ei bod yn briodol rhoi hysbysiad iddo."

**5.** Yn ngeiriau agoriadol rheoliad 6(2), ychwanegwch, ar ôl "o dan baragraff (1)(c)":

"neu (1)(ch)".

**6.** Yn lle rheoliad 6(2)(c), rhowch:

"(c) ar ba seiliau y mae'r apêl wedi'i dwyn, neu, yn achos apêl sydd wedi'i dwyn o dan adran 6 o'r Ddeddf, datganiad o dan ba un o'r seiliau a bennwyd yn adran 6(3) y mae wedi'i dwyn."

**7.** Yn rheoliad 6(4), yn lle "yn unol â pharagraff (1)(a), (b) neu (c)", rhowch:

"yn unol â pharagraff (1)(a), (b), (c) neu (ch)."

**8.** Yn rheoliad 12(1)(c), ychwanegwch, ar ôl "berson â diddordeb":

"ac, yn achos apêl o dan adran 30(3) o'r Ddeddf neu gyfeiriad o dan adran 29(2) o'r Ddeddf, unrhyw berson yr oedd hysbysiad wedi'i roi iddo o dan reoliad 6(1)(ch),"

**9.** Ychwanegwch, ar ddechrau rheoliad 12(1)(ch):

"ac eithrio yn achos apêl o dan adran 30(3) o'r Ddeddf neu gyfeiriad o dan adran 29(2) o'r Ddeddf,".

**10.** Ychwanegwch, ar ddechrau rheoliad 22(6)(a):

"ac eithrio yn achos apêl o dan adran 30(3) o'r Ddeddf neu gyfeiriad o dan adran 29(2) o'r Ddeddf,".

**11.** Yn lle rheoliad 22(6)(b), rhowch:

"(b) heb fod yn llai na dwy wythnos cyn y dyddiad a bennwyd ar gyfer cynnal yr ymchwiliad, anfon hysbysiad o'r ymchwiliad i unrhyw bersonau neu ddosbarthiadau o bersonau y mae'n barnu eu bod yn briodol ond rhaid iddo gynnwys, yn achos apêl o dan adran 30(3) o'r Ddeddf neu gyfeiriad o dan adran 29(2) o'r Ddeddf, unrhyw berson yr oedd hysbysiad wedi'i roi iddo o dan reoliad 6(1)(ch)."

**12.** Yn lle pennawd rheoliad 36 (ac ar gyfer y cofnod cyfatebol yn Nhrefn y Rheoliadau) rhowch:

*"Cyhoeddi penderfyniadau ar apelau"*

**13.** Rhowch yn lle rheoliad 36:

"**36.** Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, onid yw'n rhesymol anymarferol gwneud hynny, gyhoeddi, ar wefan y mae'n ei chynnal, hysbysiad o bob penderfyniad sy'n cael ei wneud o dan y Rheoliadau hyn:

(a) mewn perthynas ag apêl o dan adran 6 o'r Ddeddf a pharhau i wneud hynny nes bod y map terfynol y mae'r apêl yn ymwneud ag ef yn cael ei ddyroddi;

(b) mewn perthynas ag apêl o dan adran 30(3) o'r Ddeddf neu gyfeiriad o dan adran 29(2) o'r Ddeddf a pharhau i wneud hynny am o leiaf chwe mis o ddyddiad y penderfyniad."